



***ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR
Ffederasiwn Abernant, Cynwyl Elfed a Llanpumsaint
2019 – 2020***

**Cadeirydd- Mr Bryan Davies
Pennaeth-Geraldine Jenkins
B.Addysg (Anrhydedd) CPCP**

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad y Llywodraethwyr am y flwyddyn ysgol 2019-2020. Cawsom flwyddyn llawn sialen a bwrlwm gyda nifer o ddatblygiadau pendant a phwrpasol.

Diolchwn i holl aelodau'r staff am eu gwaith a'u hymroddiad er mwyn sicrhau blwyddyn lwyddiannus a llewyrchus i bawb. Diolchwn hefyd i ddisgyblion, staff a rhieni Ysgol Abernant am eu gwaith caled ac ymrwymiad i'r ysgol wrth iddynt drosglwyddo Ysgol Cynwyl Elfed ar ddechrau Medi 2020. Dymunwn y gorau iddynt ar ddechrau'r cyfnod newydd yma.

Gyda pharatoadau ynghylch ehangu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y Cwricwlwm mae'n gyfnod cyffrous dros ben ym myd addysg. Mae'r cyfnod clo a'r pandemig wedi effeithio'n fawr ar weithdrefnau a gweithgareddau'r ysgol dros y flwyddyn yma.

Er gwaethaf y pandemig bu'r disgyblion yn derbyn ystod o weithgareddau a gwaith addas ar lein gan yr athrawon. Hoffem ddiolch i bawb am eu gwaith caled.

Mae disgyblion ein hysgol wedi ennill sgiliau gwerthfawr a chydol oes yn ystod y flwyddyn ac ymfalchïwn yn y ffordd y mae staff yr ysgol wedi mynd ati i sicrhau datblygu'r plant i'w llawn potensial. Trwy gynllunio'n ofalus a pharatoi cynlluniau datblygol ac arfarniadau pwrpasol sy'n cwmpasu pob un o'n rhanddeiliaid, rydym wedi sicrhau cyfraniad unigryw a chyfoethog er mwyn darparu'r addysg orau bosib i'n plant.

Yr eiddoch yn gywir,
Bryan Davies
Cadeirydd
Geraldine Jenkins
Pennaeth



Ysgol Abernant 2019-2020



NIFER AR Y GOFRESTR: 16
YSTOD OEDRAN: 4 - 11

STAFF YR YSGOL:

Pennaeth :- Mrs G.L Jenkins
Athrawes Cyfnod Sylfaen:- Miss N Davies
Athrawes Cyfnod Allweddol 2: - Miss C Davies
Cynorthwy-ydd Dosbarth:- Mrs S Gowman-Smith
Cynorthwy-ydd Dosbarth:- Miss H Lewis
Glanhawraig :- Mrs L Wood
Cogyddes :- Ms C Thompson
Clerc cinio :- Mrs S Gowman-Smith

DISGYBLION:

Tymor yr Hydref 2019 :- 0 disgybl newydd
Tymor y Gwanwyn 2020 :- 2 disgybl newydd
Tymor yr Haf 2020 :- 0 disgybl newydd



Ysgol Cynwyl Elfed 2019-2020



NIFER AR Y GOFRESTR : 65
YSTOD OEDRAN : 4 - 11

STAFF YR YSGOL :

Pennaeth :- Mrs G.L Jenkins
Athrawes Cyfnod Sylfaen :- Miss M Walters
Athrawes Blwyddyn 3 a 4 :- Mrs E Samson
Athrawes Blwyddyn 5 a 6 :- Mrs W Smith
Cynorthwy-ydd Dosbarth :- Mrs M Brown
Cynorthwy-ydd Dosbarth :- Miss C Evans
Glanhawraig :- Mrs L Wood
Cogyddes :- Mrs A Goodman
Clerc cinio :- Mrs A Goodman

DISGYBLION/PUPILS:

Tymor yr Hydref 2019 - 2 disgybl newydd
Tymor y Gwanwyn 2020 - 0 disgybl newydd
Tymor yr Haf 2020 - 2 disgybl newydd



Ysgol Llanpumsaint 2019-2020



NIFER AR Y GOFRESTR : 36
YSTOD OEDRAN : 4 - 11

STAFF YR YSGOL :

Pennaeth :- Mrs G.L Jenkins
Athrawes Cyfnod Sylfaen :- Mrs M Davies, Mrs A Jones
Athrawes Cyfnod Allweddol 2 :- Mrs C Kelly
Cynorthwy-ydd Dosbarth :- Mrs R Davies
Cynorthwy-ydd Dosbarth :- Mrs S Evans
Glanhawraig :- Mrs D Thomas
Cogyddes :- Mrs G Thomas
Clerc cinio :- Mrs G Thomas

DISGYBLION/PUPILS:

Tymor yr Hydref 2019 - 2 disgybl newydd
Tymor y Gwanwyn 2020 - 3 disgybl newydd
Tymor yr Haf 2020 - 3 disgybl newydd

Corff Llywodraethol Ffederasiwn Abernant, Cynwyl Elfed a Llanpumsaint

<i>Mrs G. Jenkins</i>	Pennaeth	10/1/19-
<i>Miss C. Davies</i>	Cynrychiolydd Athrawon	10/1/19-9/1/21
<i>Mrs E. Samson</i>	Cynrychiolydd Athrawon	10/1/19-9/1/21
<i>Mrs M. Brown</i>	Cynrychiolydd Staff	10/1/19-9/1/21
<i>Mrs S. Evans</i>	Cynrychiolydd Staff	10/1/19-9/1/21
<i>Mrs M. Evans</i>	Cynrychiolydd Rhieni	10/1/19-9/1/23
<i>Mrs L.Cockroft</i>	Cynrychiolydd Rhieni	10/1/19-9/1/23
<i>Mr J. Kerr</i>	Cynrychiolydd Rhieni	10/1/19-9/1/23
<i>Mrs N Rees</i>	Cynrychiolydd Rhieni	10/1/19-9/1/23
<i>Mrs E Jones</i>	Cynrychiolydd Rhieni	10/1/19-9/1/23
<i>Miss L Cooper</i>	Cynrychiolydd Rhieni	3/2/20-2/2/24
<i>Mr B Davies</i>	Cadeirydd Cynrychiolydd Cymuned Ychwanegol	10/1/19-9/1/23
<i>Cllr H. I. Jones</i>	A LI	10/1/19-9/1/23
<i>Mr A Davies</i>	A.LI	10/1/19-9/1/23
<i>Mr P Jones</i>	A.LI	10/1/19-9/1/23
	A.LI	
<i>Mr D Phillips</i>	Cynrychiolydd Cymuned Is –gadeirydd	17/1/19-16/1/23
<i>Mrs M Stedman</i>	Cynrychiolydd Cymuned	21/11/19-20/11/23
<i>Mrs L Jones</i>	Cynrychiolydd Cymuned	17/1/19-16/1/23
<i>Mrs H Francis</i>	Cynrychiolydd Cymuned	21/11/19-20/11/23
A LI/LA	Clerk Llywodraethwyr	

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr K Mably Medi-Tachwedd 2019

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr B Davies Tachwedd 2019

Is- Gadeirydd y Llywodraethwyr : Mr D Phillips
Clerc i'r Llywodraethwyr : A LI/ LA

Swydd Gweinyddol yr Ysgol

CORFF LLYWODRAETHOL
Medi 2019 Cadeirydd Mr. Kevin Mably
Tachwedd 2019 Cadeirydd Mr. Bryan Davies
Is-Gadeirydd Mr. Delme Phillips

Mae pob aelod o'r Corff Llywodraethol, heblaw y Brifathrawes, a Chynrychiolwyr Athrawon a Staff, yn gwasanaethu am gyfnod o bedair mlynedd.

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn adlewyrchu trawsdoriad y gymuned leol. Mae'r Cadeirydd yn cael ei ethol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd. Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am reoli polisiau'r Awdurdod Addysg a deddfwriaeth ysgolion y wlad. Yn dilyn rheolau Rheoli Ysgolion Lleol mae gan y Bwrdd Llywodraethol gyfrifoldebau sy'n debyg i Fwrdd Cyfarwyddwyr ym myd busnes.

Mae'r Corff Llywodraethol yn cyfarfod unwaith bob tymor i drafod adroddiad manwl mae'r Pennaeth yn paratoi. Mae'r adroddiadau yma'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ac ati.

Sut mae cysylltu â'r Corff Llywodraethol?

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, gallwch ysgrifennu at y Cadeirydd drwy e-bost-

Bryan.Davies@llanpumsaint.ysgolccc.cymru

Croesawn eich cyfraniad ar bob achlysur. Ni chynelir Cyfarfod Blynnyddol i'r rhieni bellach, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod. Mae hawl cynnal tri chyfarfod y flwyddyn, a hynny drwy roi deiseb i fewn gyda 10% o'r rhieni a fynycha yr ysgol yn arwyddo'r ddeiseb, a nodi pam maent eisiau galw cyfarfod.

Darparwyd cyrsiau arbennig i Lywodraethwyr yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ymwelodd aelodau o'r Corff Llywodraethol â'r ysgol a hoffem ddiolch iddynt am eu hadroddiadau adeiladol ar eu hymweliad. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng Mr Bryan Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr a Phennaeth yr Ysgol.

Cwynion- Mae gan yr ysgol bolisi cwynion

CYFLAWNIAD ARIANNOL

CYFLAWNIAD ARIANNOL Ysgol Abernant School

-£9553 Diffyg i gario 2020/2021

£

Gwariant Net 2019/20	140,050	Net Expenditure 2019/20
Dyranlad Ariannu yn ôl Fformwla 2019/20	116,615	Formula Funding Allocation 2019/20
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd o 2018/19	<u>-13,882</u>	Surplus Brought Forward from 2018/19
Diffyg Ariannol yn Cario Drosodd i 2020/21	<u>9,553</u>	Deficit Carried Forward to 2020/21

CYFLAWNIAD ARIANNOL Ysgol Cynwyl Elfed School

-£9843 Diffyg i gario 2020/2021

£

Gwariant Net 2019/20	233,929	Net Expenditure 2019/20
Dyranlad Ariannu yn ôl Fformwla 2019/20	239,549	Formula Funding Allocation 2019/20
Diffyg Ariannol yn Cario Drosodd o 2018/19	<u>15,463</u>	Deficit Brought Forward from 2018/19
Diffyg Ariannol yn Cario Drosodd i 2020/21	<u>9,843</u>	Deficit Carried Forward to 2020/21

CYFLAWNIAD ARIANNOL Ysgol Llanpumsaint School

-£93 Diffyg i gario 2020/2021

£

Gwariant Net 2019/20	143,312	Net Expenditure 2019/20
Dyranlad Ariannu yn ôl Fformwla 2019/20	128,662	Formula Funding Allocation 2019/20
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd o 2018/19	<u>-14,557</u>	Surplus Brought Forward from 2018/19
Diffyg Ariannol yn Cario Drosodd i 2020/21	<u>93</u>	Deficit Carried Forward to 2020/21

IAITH YSGOLION

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgolion Abernant, Cynwyl Elfed a Llanpumsaint, a'r cyfrwng dysgu yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen. Cyflwynir Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2. Os fydd plentyn yn dechrau'r ysgol heb ddim Cymraeg yna fe siaredir gyda'r plentyn hynny yn unigol yn Saesneg nes ei fod yn dod i ddeall Cymraeg.

Yn Cyfnod Allweddol 2 dysgir y mwyafrif o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg, ond dysgir Mathemateg a Gwyddoniaeth yn ddwyieithog. Rhoddir cynnig i hwyrdyfodiaid i fynychu canolfan iaith er mwyn cael cymorth yn y Gymraeg a darperir gwaith yn Saesneg iddynt nes eu bod yn caffael rhywfaint ar yr iaith Gymraeg. Cymraeg yw iaith cyfarthrebu yr ysgol o ddydd i ddydd.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Yn ystod y flwyddyn adolygwyd trefniadaeth Addysg Arbennig yr ysgol gan y Pennaeth ynghyd â Seicolegydd Addysg y Sir. Ymwelodd Seicolegwyr Addysg a Therapyddion Iaith a Lleferydd â'r ysgol, i asesu plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig [AAA]. Gwnaed archwiliad manwl o'r disgyblion AAA er mwyn cofrestru eu hanghenion a gweithredu'r ddarpariaeth briodol iddynt.

Fel yn y gorffennol, rhoddwyd mynediant llawn i'r cwricwlwm cenedlaethol i bob disgybl, os nad yn erbyn cyngor swyddogion yr Awdurdod. Mae strategaethau i gefnogi'r cwricwlwm gan swyddogion proffesiynol, megis therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwaedigaethol, ymwelydd iechyd, swyddogion cymorth ymddygiadol yn cael eu hintegreiddio i mewn i weithgareddau disgybl ar bob achlysur lle bo hynny'n briodol. Cyflawnir hyn drwy gynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth neu fel unigolion neu mewn grwpiau bychain y tu allan i'r dosbarth gyda chymorth cynorthwywyr anghenion dysgu ychwanegol.

Ysgol Abernant-Miss Carys Davies yw'r cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.

Ysgol Cynwyl Elfed-Miss Meinir Walters yw'r cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.

Ysgol Llanpumsaint -Mrs Claire Kelly yw'r cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.

CYNLLUN GWEITHREDU 2019-2020 **AGWEDDAU O GYNLLUN DATBLYGU'R YSGOL**

Mae'r Cynllun Datblygu ysgol yn ddogfen weithredol sy'n cynnwys blaenoriaethau sy'n deillio o argymhellion a wnaed gan ESTYN a'r gweithdrefnau hunan- arfarnu'r ysgol. Mae hefyd yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a'r dadansoddiad o ddata canlyniadau diwedd cyfnod allweddol.

PRIF FLAENORIAETHAU 2019-2020

Ysgol Abernant School
Argymhellion Estyn

- A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith ar draws yr ysgol
- A2 Codi safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y ddau gyfnod allweddol
- A3 Gwella safonau darllen Saesneg yng nghyfnod allweddol 2
- A4 Sicrhau bod yr addysgu ar draws yr ysgol yn heriol ac yn ymateb i anghenion pob disgybl
- A5 Cryfhau rôl yr arweinwyr ar bob lefel a'r corff llywodraethol fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â phob un o'r argymhellion ac wedi rhannu'r ffordd ymlaen ac adroddiadau cynnydd gyda llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol yn ystod cyfarfodydd adolygu misol.

Bu gwelliant mewn safonau darllen ar draws Cyfnod Allweddol dau ac mae disgyblion wedi profi ystod o dasgau addas a chyfoethog er mwyn datblygu a hyrwyddo eu dysgu ymhellach.

Ysgolion Cynwyl Elfed a Llanpumsaint Schools
Argymhellion

- A1 Sicrhau bod arweinwyr yn canolbwyntio ar y gweithdrefnau ymarferol fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar addysgu a safonau
- A2 Sicrhau bod gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion
- A3 Sicrhau bod y trefniadau cynllunio athrawon cyfnod allweddol 2 yn ddigon manwl i ddiwallu anghenion pob grŵp o ddisgyblion a'u bod yn eu gweithredu'n effeithiol
- A4 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion yn y ddwy iaith lle'n briodol
- A5 Gwella'r ddarpariaeth i alluogi disgyblion i ddefnyddio'u medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â phob un o'r argymhellion ac wedi rhannu'r ffordd ymlaen ac adroddiadau cynnydd gyda llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol yn ystod cyfarfodydd adolygu misol.

Bu gwelliant mewn safonau darllen ar draws Cyfnod Allweddol dau ac mae disgyblion wedi profi ystod o dasgau addas a chyfoethog er mwyn datblygu a hyrwyddo eu dysgu ymhellach. Mae'r disgyblion wedi elwa o ystod o weithgareddau sy'n hyrwyddo rhifedd ac mae'r cynllunio wedi'i ail-werthuso er mwyn sicrhau gweithgareddau heriol, diddorol ac ysgogol i bob disgybl.

POLISI AMDDIFFYN PLANT

Mae gan pob ysgol o fewn y Ffederasiwn Bolisi Amddiffyn Plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr aelodau staff dynodedig ar gyfer diogelu plant yw:

Pennaeth: Mrs G Jenkins
Ysgol Abernant - Miss C Davies
Ysgol Cynwyl Elfed - Mrs E Samson
Ysgol Llanpumsaint -- Mrs C Kelly

Mae gan aelod dynodedig o'r Corff Llywodraethol, Mrs Lisa Cockroft hefyd gyfrifoldeb am ddiogelu.

CWRICWLWM

Mae'r holl athrawon a'r cynorthwy-wyr i'w canmol am safon y ddarpariaeth a gynigir yn Ffederasiwn Abernant, Cynwyl Elfed a Llanpumsaint. Gweithia pob un yn gydwybodol er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Ein nod yw creu awyrgylch hapus a gofalgar lle mae pob plentyn, beth bynnag fo'i allu, yn cael ei annog i ddatblygu fel unigolyn, a thrwy hyn, ennill y ddealltwriaeth, wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i fyw bywyd fel oedolyn.

Seiliwyd ein cwricwlwm ar ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a ddisgrifiwyd yn y Ddeddf Addysg 1988 a diwygiadau dilynol. Mae'r ysgol yn darparu ystod lawn o bynciau Ysgol Gynradd a thrwy gynllunio a monitro gofalus o'r cwricwlwm sicrhawn fod dilyniant yn cael ei fonitro'n agos. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi mabwysiadu Canolfan Athrawon ac Incerts i dracio cynnydd ein disgyblion. Mae'r holl athrawon yn cynllunio gwaith yn ofalus ar gyfer y plant a addysgir ganddynt er mwyn gosod targedau o fewn eu cyrraedd hwy a'u disgyblion. Mae cynllunio gofalus hefyd yn sicrhau fod gwaith yn gyfatebol i allu, profiadau a diddordebau'r disgyblion gan wneud yn siwr fod datblygiad, dilyniant a phwysau cytbwys yn cael ei roi i bob pwnc yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Trwy'r ddau gyfnod fe ddilynwyd proses trawsewricwlaidd a thematig.

Darperir cwricwlwm sy'n sicrhau fod disgyblion yr ysgol yn astudio ystod eang a chytbwys o bynciau sy'n hyrwyddo eu datblygiad meddyliol, corfforol, ysbrydol, moesol a diwylliannol.

Rydym, ar hyn o bryd, yn y broses o fabwysiadu'r Cwricwlwm newydd i Gymru 2022, sy'n anelu at baratoi plant a phobl ifanc i ffynnu mewn dyfodol lle mae sgiliau digidol, y gallu i addasu a chreadigrwydd yn hanfodol. Mae'r ddau Cyfnod Allweddol ar daith tuag at ddarparu Cwricwlwm sy'n cynnwys y chwe maes dysgu a phrofiad a'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Y chwe maes dysgu a phrofiad:
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
Mathemateg a Rhifedd
Dyniaethau
Celfyddydau Mynegiannol
Iechyd a Lles
Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau a gynlluniwyd er mwyn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm, sef datblygu plant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
- dinsasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas



**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN
CARMARTHENSHERE COUNTY COUNCIL**

TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL - BLWYDDYN ACADEMAIDD 2020/2021

Tymor	Dechrau'r Tymor	Gwyliau Hanner Tymor		Diwedd Tymor	Dyddiau
		Dechrau	Diwedd		
Hydref 2020	Dydd Mercher 2il Medi	Dydd Llun 26ain Hydref	Dydd Gwener 30ain Hydref	Dydd Gwener 18fed Rhagfyr	73
Gwanwyn 2021	Dydd Mawrth 5ed Ionawr	Dydd Llun 15fed Chwefror	Dydd Gwener 19eg Chwefror	Dydd Gwener 26ain Mawrth	54
Haf 2021	Dydd Llun 12fed Ebrill	Dydd Llun 31ain Mai	Dydd Gwener 4ydd Mehefin	Dydd Gwener 16eg Gorffennaf	64
Dyddiau HMS Penodol - Dydd Mawrth, 1 Medi 2020; Dydd Llun, 21 Rhagfyr 2020; Dydd Mawrth, 22 Rhagfyr 2020; Dydd Llun, 4 Ionawr 2021					4
Cyfanswm					195

O.N. Gwener y Groglith - 2il Ebrill 2021
Gŵyl Fai - 3ydd Mai 2021

SCHOOL TERMS AND HOLIDAYS - ACADEMIC YEAR 2020/2021

Term	Term Begins	Half Term Holiday		Term Ends	Days
		Begins	Ends		
Autumn 2020	Wednesday 2nd September	Monday 26th October	Friday 30th October	Friday 18th December	73
Spring 2021	Tuesday 5th January	Monday 15th February	Friday 19th February	Friday 26th March	54
Summer 2021	Monday 12th April	Monday 31st May	Friday 4th June	Friday 16th July	64
Designated INSET Days - Tuesday, 1 September 2020; Monday, 21 December 2020; Tuesday, 22 December 2020; Monday, 4 January 2021					4
Total					195

N.B. Good Friday - 2nd April 2021
May Day - 3rd May 2021

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

Please note that this calendar is subject to any changes that may arise as a result of government policy decisions. Carmarthenshire County Council does not accept liability for any losses incurred in respect of altered holiday arrangements following such changes.

<p><u>Oriau Ysgol Ysgol Abernant</u></p> <p><u>Cyfnod Sylfaen</u> Cyfnod Sylfaen 9.15-12.00 12.00-12.45 CINIO 12.45-3.30 ADREF</p> <p><u>Cyfnod Allweddol 2</u> 9.00-12.00 12.00-12.45 CINIO 12.45-3.30 ADREF</p>	<p><u>Oriau Ysgol Ysgol Cynwyl Elfed</u></p> <p><u>Cyfnod Sylfaen</u> 9.00-12.00 12.00-1.00 CINIO 1.00-3.15 ADREF</p> <p><u>Cyfnod Allweddol 2</u> 9.00-12.00 12.00-1.00 CINIO 1.00-3.30 ADREF</p>	<p><u>Oriau Ysgol Ysgol Llanpumsaint</u></p> <p><u>Cyfnod Sylfaen</u> Cyfnod Sylfaen 9.00-12.00 12.00-1.00 CINIO 1.00-3.30 ADREF</p> <p><u>Cyfnod Allweddol 2</u> 9.00-12.00 12.00-1.00 CINIO 1.00-3.30 ADREF</p>
--	---	--

CYRSIAU A FYNYCHWYD

DIWRNODAU HMS. –Cyfarfod Staff

CYRSIAU ERAILL

Hydref 2019: -

- Cyfarfod Penaethiaid
- Rheoli Perfformiad y Pennaeth
- Hyfforddiant Meddygol Nyrs
- Seminar ERW i Benaethiaid
- Ysgolion Iach
- Penaethiaid Clwstwr Bro Myrddin

Gwanwyn 2020:

- Cyfarfod Penaethiaid
- Hyfforddiant Meddygol Nyrs
- Ysgolion Iach
- Penaethiaid Clwstwr Bro Myrddin

Gwahoddir pob Llywodraethwr i fynychu ystod o gyrsiau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu darparu yn ogystal â hyfforddiant llywodraethwyr a Data newydd statudol.

Gweithgareddau 2019-2020

Gweithgareddau Amrywiol 2019-2020

Adran yr Urdd a Clwb Chwaraeon

Nadolgig – Sioe, parti, cinio ac ymweliad gan Sion Corn

Cyngerdd athrawon peripatetic

Sioe Bro Myrddin

Gwasanaeth Diolchgarwch

Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd

Clwb Chwaraeon
Cystadleuaeth Pel droed merched a bechgyn
Plant mewn angen
Lluniau Tempest- CE
Noson Rhieni
Red Cross Siwmpwr Nadolig
Cerddorfa
Gwersi nofio (Ysgol Cynwyl Elfed)
Diwrnod Trwyn Coch
Dathliad Dydd Gŵyl Dewi
Diwrnod y Llyfrau
Gweithgareddau Urdd
Ymweliad Caerdydd

Ymwelwyr i'r ysgol

Therapydd Lleferydd
Seicolegydd Addysg
Ann James – Ymgynghorydd Cyswllt
Nyrs Ysgol
Ficer –Gwasanaeth y Nadolig
Darpar rieni a'u plant
PC Catherine Williams

CYSYLLTIAD AG YSGOLION UWCHRADD

Cafwyd cysylltiad â'r ysgolion uwchradd bydd y disgyblion yn mynd iddynt, er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn eu haddysg a'u datblygiad. Mynychwyd cyfarfodydd cyswllt rhwng athrawon cynradd ac uwchradd, a bu athrawon o'r Ysgolion Uwchradd ar ymweliadau â'r ysgol. Mae Cynulliad Cymru yn ariannu cynlluniau cyswllt CA2/CA3 er mwyn hyrwyddo ymhellach ddilyniant a safonau rhwng y ddau gyfnod allweddol. Mae'r ysgol hon mewn cysylltiad ag Ysgol Bro Myrddin mewn rhai agweddau o'r cwricwlwm (yn cynnwys Rhifedd a Llythrennedd), a chyda Ysgol Q E High..
Bu disgyblion Bl. 5 a 6 ar ymweliadau ag Ysgol Bro Myrddin, Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth ac Ysgol Emlyn.

Trosglwyddo i Ysgolion Uwchradd

Ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd 2019-2020 trosglwyddodd y disgyblion yma i ysgolion uwchradd lleol. Doedd dim plant ym mlwyddyn 6 yn Ysgol Abernant.

<p><i>Cynwyl Elfed</i> Bro Myrddin- 5 QE High- 0 Emlyn- 2</p>	<p><i>Llanpumsaint</i> Bro Myrddin- 4 QE High- 0 Emlyn- 0 Bro Dinefwr- 1</p>
--	---

PROSBECTWS YR YSGOL

Mae prosbectws yr ysgol yn gyfredol ac ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ar wefan yr ysgol. Ychwanegwyd wybodaeth am Ddiogelu Plant at y prosbectws.

CHWARAEON

Cynhaliwyd Clwb Chwaraeon/Adran ôl-ysgol i ddisgyblion yr ysgol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn Addysg Gorfforol ddigonol bob wythnos a gwneir amrywiol weithgareddau sydd o fewn ffiniau cwricwlwm Addysg Gorfforol. Mae'r ysgolion hefyd yn cwrdd â'r gofyniad statudol ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol.

CLYBIAU YSGOL

Mae'r plant wrth eu bodd yn y clwb, gyda nifer o ddisgyblion yn aros ar ôl oriau'r ysgol Mae'n cyfarfod yn wythnosol ar ôl yr ysgol ac yn cynnal amrywiol weithgareddau tu allan neu dan do, yn yr ysgol ac mewn mannau eraill. Yn ein rhaglen eleni trefnwyd gemau iard, gemau dan do, gemau bwrdd, dawnsio, ymarfer eisteddfod, cwis, celf/crefft, ymweliad gan swyddog yr Urdd a disgo Nadolig. Bu cystadlu brwd yn eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd mewn amryw o gystadlaethau canu, llefaru a chelf a chrefft gan gynrychioli'r ysgol yn arbennig o barchus.

Mae disgyblion wedi elwa o ystod o weithgareddau ar draws y Ffederasiwn ac wedi mwynhau Chwaraeon, Urdd, Cyfrifiadur, Cymraeg a Chlwb Celf.

ADEILADAU, EIDDO A THIR YR YSGOL

Cafwyd ymweliadau gan dechnegwyr, peiriannwyr a swyddogion yn gwneud archwiliadau cyfnodol o'r larwm tân, bwyler gwresogi, offer trydan, offer TGCh ac offer y gegin, yn ogystal ag offer Addysg Gorfforol.

Torrir y borfa gan weithwyr y Cyngor Sir a marciwyd y cae ar gyfer y Mabolgampau.

Y GYMDEITHAS RHIENI

Bu'r Mudiad yn gefnogol iawn i'r ysgol, yn trefnu gweithgareddau codi arian a chymdeithasu. Trefnwyd Ffair haf, ffair Nadolig, Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Mudiad i benodi swyddogion newydd i'r pwyllgor. Mae'n dyled yn fawr eleni eto i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am eu hymdrechion wrth drefnu gweithgareddau cymdeithasol i godi arian tuag at anghenion yr ysgol. Diolch yn fawr i bawb.

CLWB GOFAL ÔL YSGOL A'R CLWB BRECWAST

Mae Clwb Brecwast yn parhau'n llwyddiannus iawn ac wedi cynyddu mewn aelodaeth eleni eto.

Mae Clwb Gofal yn bodoli yn ysgolion Cynwyl Elfed a Llanpumsaint bellach ac yn profi i fod yn llwyddiant.

HYRWYDDO BWYTA'N IACH

Mae gan yr ysgol beiriant dwr ac mae gan bob disgybl botel ddŵr unigol. Anogir y disgyblion i yfed dŵr yn rheolaidd yn ystod y dydd. Rydym yn dilyn bwydlen ginio'r Sir sy'n hyrwyddo bwyd iach ac yn darparu ciniawau iach.

Anogir drwy bamffled i rieni'r disgyblion sy'n dod a phecynnau bwyd i'r ysgol i baratoi bwyd iach. Mae'r ysgol yn rhan o brosiect Ysgolion Iach ac Ysgol Eco.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn parhau i dderbyn llaeth am ddim yn ddyddiol.

CYFLEUSTERAU TOILEDAU YR YSGOL

Mae toiledau priodol i ddisgyblion a staff ac maent yn cael eu clanhau yn ddyddiol gan glanhauwraig yr ysgol. Mae unrhyw broblem cynnal a chadw yn cael ei datrys yn syth.

GAIR O DDIOLCH

Dymunwn fel ysgol gyfan dalu diolch i'r Corff Llywodraethol am bob cefnogaeth a chymorth a roddwyd inni yn ystod y flwyddyn. Mae'r cydweithredu'n gweithio'n dda er lles a budd yr ysgol a'r disgyblion.

Dymuna'r Llywodraethwyr a'r staff ddiolch yn arbennig i'r rhieni a ffrindiau'r ysgol sydd bob amser yn barod iawn i gefnogi'r plant, a chynorthwyo ar amrywiol achlysuron. Hefyd diolch am hyrwyddo gwaith y staff a gwerthfawrogi eu hymdrechion.